**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

**This response was submitted to the Equality and Social Justice Committee consultation on Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill**

**SPPP 19**

**Ymateb gan: Cwmpas | Response from: Cwmpas**

---

**Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

**Amdanom ni**

Asiantaeth ddatblygu yw Cwmpas sy'n gweithio i greu newid er gwell.

Rydym yn gwmni cydweithredol sy'n canolbwyntio ar greu economi decach a gwyrddach a chymdeithas fwy cyfartal, lle mae pobl a'r blaned yn dod gyntaf. Nid yw'r system economaidd bresennol yn llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu ein cymunedau heddiw, o'r newid yn yr hinsawdd i galedi economaidd. Does dim rhaid i bethau fod fel hyn.

Fe allai – ac fe ddylai – ein heconomi a'n cymdeithas weithio er budd pobl a'r blaned. Cenhadaeth Cwmpas, a sefydlwyd ym 1982 fel Canolfan Cydweithredol Cymru, yw newid y ffordd y mae ein heconomi a'n cymdeithas yn gweithio.

**Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Rydym yn cefnogi pwrpas ac amcan y Bil, ac rydym yn credu ei fod yn gam angenrheidiol tuag at ddatblygu economi decach, fwy cynaliadwy a mwy moesegol yng Nghymru. Gwyddom y gall ymgysylltu â gweithwyr a phartneriaeth arwain at ganlyniadau gwell mewn llawer o gyd-destunau, fel cyflog, amodau gwaith a chynhyrchiant. Rydym yn cytuno bod angen deddfwriaeth er mwyn sicrhau rydym yn gallu gwneud cynnydd gwirioneddol yn fuan.

Rydym yn cefnogi'r cynnig i sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (CPG) ac yn credu y bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad polisi effeithiol yn Llywodraeth Cymru. Mae gan weithwyr a busnesau a'u profiadau o fyw a gweithio yng Nghymru, ein heconomi a'n cymunedau fewnwelediad hanfodol a bydd defnyddio'r profiad byw hwn yn natblygiad blaenoriaethau a pholisïau'r Llywodraeth yn cael effaith bositif ar sut rydym yn datblygu polisi yng Nghymru.

Rydym yn nodi bod y Bil wedi amlinellu bydd y 9 cynrychiolydd cyflogwyr yn dod o gyrff cyhoeddus, y sector preifat, y sector gwirfoddol ac Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Rydym yn hapus i weld bod y sector gwirfoddol yn cael cynrychiolaeth benodol. Byddem am gweld bod mentrau cymdeithasol hefyd yn cael eu cynrychioli ar y rhestr hon. Mae'r sector yn cynnwys hyd at 2,309 o fusnesau a hyd at 56,000 o weithwyr, ac yn gynhyrchu gwerth £3.1–3.8 biliwn. Rydym yn credu dylen nhw gael eu cynrychioli ar y CPG fel cyflogwr sylweddol a chynhyrchydd gwerth economaidd yng Nghymru, ond hefyd fel cynrychiolydd o fodel busnes sy'n gallu datblygu i wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy bositif tuag at y Nodau Llesiant a amlinellir yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rydym yn credu bydd y llais unigryw hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r grwp, yn ogystal â bod yn gynrychiolaeth hanfodol ar gyfer y cyd-destun penodol ar gyfer busnesau a gweithwyr yn y sector menter gymdeithasol.

Rydym yn cefnogi rhoi'r dyletswyddau penodol i gyrff cyhoeddus a gweinidogion Llywodraeth Cymru I ymgynghori'r CPG. Credwn fod gan hyn y potensial i fod o fudd sylweddol i'r sector menter gymdeithasol o ran eu helpu i ennill contractau sector cyhoeddus. Mae mentrau cymdeithasol mewn sefyllfa da iawn i ddarparu gwerth ychwanegol a bodloni'r amcanion llesiant y byddai'r dyletswyddau

hyn yn gofyn amdanynt. Byddem yn croesawu’r cyfle i weithio gyda chyrff cyhoeddus i ddatblygu eu strategaethau caffael a amlinellir yn y Bil, a byddem yn annog gweithio i targed penodol ar gyfer % y mentrau cymdeithasol sy’n ennill y contractau hyn.

Bydd yn hanfodol i sicrhau bod mentrau cymdeithasol yn cael cefnogaeth i ddatblygu’r sgiliau sydd eu hangen i wneud cais llwyddiannus am y prosiectau hyn – Mae ein hadroddiad diweddar sy’n mapio’r sector yng Nghymru fod ddangos hwn fel un o’r prif feysydd lle mae’r sector yn angen cymorth. Gwyddom fod eu model busnes ‘triple bottom line’ yn golygu eu bod mewn sefyllfa da iawn i gyflawni’r contractau hyn mewn modd sy’n bodloni’r amcanion llesiant, ond mae ennill y contractau hyn yn sgil penodol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cleientiaid i sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau.

Gwyddom bydd angen inni ymestyn yr egwyddorion a’r dyletswyddau hyn i’r sector preifat er mwyn cyflawni potensial llawn amcanion y Bil hwn. Er mwyn sicrhau cyflog ac amodau gwaith gwell i holl weithwyr Cymru, bydd angen newidiadau sylweddol i’n heconomi a’r modelau busnes. Dyma pam rydym yn credu dylai cwmnïau cydweithredol, busnesau sy’n eiddo i’r gweithwyr a mentrau cymdeithasol fod yn fodelau busnes o ddewis yng Nghymru. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu y farchnad i gynyddu’r cyflenwad busnesau hyn, yn ogystal â defnyddio polisi caffael cyhoeddus i gynyddu’r galw. Rydym yn gweithio tuag at gyflawni’r amcan hwn a’r rhai a nodir yn y weledigaeth a’r cynllun gweithredu Trawsnewid Cymru drwy fentrau cymdeithasol a byddem yn croesawu’r cyfle i drafod sut mae’r weledigaeth hon yn cyfrannu at amcan y Bil.